Bodfforda Cyf.

Bodffordd Cyf.

Croeso i Bodffordd Cyf.

Cwmni cyfyngedig trwy warant yw Bodffordd Cyf. sy'n datblgu prosiectau buddiol ym mhentref Bodffordd a'r ardal o gwmpas er mwyn cefnogi a chyfoethogi bywydau'r holl drigolion ac osgoi eithrio cymdeithasol.

Ffurfiwyd y Cwmni yn Ionawr 2005 a thros y blynyddoedd mae wedi llwyddo i ddenu sawl grant i gynnal prosiectau sy'n hyrwyddo ac adfywio'r ardal.

Cyfarwyddwyr ac Aelodau'r Pwyllgor

Cynghorydd T. Victor Hughes (Ysgrifennydd y Cwmni)
Mr Ellis Wyn Roberts (Cadeirydd)
Mr Arwel Humphreys (Trysorydd)
Mr D. Handel Evans (Clerc)

Mrs Sioned Evans
Mr Tudor Evans
Mr J. Egryn Lewis
Mr Dic Pritchard
Mr Owen John Thomas

Cynhelir rhyw bedwar Cyfarfod Cyffredinol yn flynyddol fel arfer.
Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cwmni ym mis Medi.

Prosiectau

Prosiectau: 2005 - 2015

Ailsefydlu Swyddfa'r Post a siop yn y pentref.
(Hwn oedd y cynllun mwyaf uchelgeisiol yn ystod y cyfnod hwn ond yn anffodus, er ein hymdrechion, caewyd y siop yn Hydref 2011).

Gosod meinciau ger llwybr cerdded Llyn Cefni.

Gosod cafn planhigion ger yr ysgol.

Plannu cennin Pedr yn y pentref.

Adeiladu cafn planhigion a gosod mainc ychwanegol ger Lôn Sardis.

Gosod arwyddion newydd yn y pentref.

Cysylltu'n rheolaidd â Dŵr Cymru ynglŷn â'u safle ger Lôn Sardis.

Derbyn caniatâd i blant ddefnyddio cae'r ysgol tu allan i oriau'r ysgol.

Ystorfa allanol i'r Ysgol Gymuned.

Cyfraniad ariannol i'r Pwyllgor Maes Chwarae er mwyn datblygu'r safle.

Prosiectau: 2016

Cwblhau'r Cynllun Maes Chwarae.

Gofalu am y cafnau planhigion presennol a phlannu cennin Pedr ychwanegol yn y pentref yn ôl y galw.

Cynnwys gwybodaeth am Bodffordd Cyf. ar wefan y Cyngor Cymuned. Cydweithio â'r Cyngor Cymuned ynglŷn â gwybodaeth am glybiau, cymdeithasau etc. eraill.

Prosiectau newydd

Ystyrir prosiectau newydd yn rheolaidd ond os oes gennych awgrymiadau ynglŷn â chynlluniau newydd, mae croeso i chwi gysylltu â ni.

Arwydd newydd y pentref (1 o 4 arwydd)

Cafn planhigion ger Lôn Sardis

Cafn planhigion ger yr ysgol

Cennin Pedr ger Lôn Sardis

Gwybodaeth ychwanegol

Am wybodaeth gyffredinol, cysylltwch â'r canlynol os gwelwch yn dda:
Mr D. Handel Evans (Clerc)
8 Stad Cae Bach Aur, Bodffordd, Llangefni, Ynys Môn LL77 7JS
Ffôn: 01248 750478 E-bost: handel.evans@btinternet.com

Os hoffech ddod yn aelod o'r Pwyllgor, cysylltwch â'r canlynol os gwelwch yn dda:
Cynghorydd T. Victor Hughes (Ysgrifennydd y Cwmni)
Llys Helyg, Bodffordd, Llangefni, Ynys Môn LL77 7DX
Ffôn: 01248 723850 E-bost: victorhughes@williamhughes.com

Rhif Cofrestru'r Cwmni: 5348090